

TUDALEN 29

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadleda Zoom ar **24 Ebrill 2003** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts; Cyng. Elin Walker Jones (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Shane Parsons, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion).

110/22 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance.

101/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

102/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

- (i) Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Arolygydd newydd yr Heddlu i'r ardal, sef yr Arolygydd Ian Roberts, Heddlu Gogledd Cymru. Eglurodd yr Arolygydd yr ardal dan sylw a'r adnoddau oedd ar gael iddo. Trafodwyd y ffermydd canabis a ddarganfuwyd yn y ddinas ynghyd â'r ffigyrau trosedd yn gyffredinol. Er ei fod yn cydnabod fod gan Bangor ei phroblemau, pwysleisiwyd fod yr ystadegau trosedd yma yn isel a chyfraddau darganfod yn uchel mewn cymhariaeth â'r ffigyrau rhanbarthol a chenedlaethol.
- (i) Mr Will Adams, Swyddog Rhaglenni Adfywio Bangor Cyngor Gwynedd Eglurodd Mr Adams ei fod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Ddinas ar brosiectau amrywiol. Yn benodol heno roedd yn dymuno mesur teimladau'r aelodau am y cerflun arfaethedig y tu allan i Storiel (gweler eitem Agenda 111/22 isod).

103/22 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Diolchodd yr aelodau i'r Cyfarwyddwr Dinesig am ei adroddiad cynhwysfawr. Roedd angen cymeradwyo tair eitem, fel a ganlyn

1. Y Cyfarwyddwr Dinesig i ymchwilio i sefydlu Ffair Wyddoniaeth ym Mangor – CYMERADWYWYD
2. Cyngor y Ddinas i gyfrannu £500 i daith feicio drydanol, a drefnwyd gan Bartneriaeth Ogwen a Pobl i Bobl ar 29 Ebrill – CYMERADWYWYD
3. Y Cyfarwyddwr Dinesig i ymchwilio ymhellach i ddatlu pen-blwydd Bangor yn y flwyddyn 2025, ac i lunio gweithgor i'r perwyl hwn – CYMERADWYWYD.

104/22 CYMERADWYO CYFETHOL CYNGHORWYR NEWYDD

Roedd dau enw wedi dod ymlaen, sef Lisa Toth, i gynrychioli ward Hendre a Delyth Russell i gynrychioli Marchog. Rhoddodd y ddwy grynodedd byr o'u cefndir a'u diddordebau.

TUDALEN 30

PENDERFYNWYD cyfethol Ms Toth a Ms Russell i Gyngor Dinas Bangor. Cawsant groeso cynnes gan Ei Deilyngdod y Maer.

105/22 ETHOL MAER ETHOLEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG NESAF

Gwahoddwyd enwebiadau. Cynigwyd ac eiliwyd enw'r Dirprwy Faer, y Cyng. Elin Walker Jones. Derbyniodd y Cyng. Jones yr enwebiad ac roedd pawb o blaid. Bydd y Cyng Walker Jones yn cael ei phenodi'n ffurfiol yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 22 Mai 2023.

106/22 ETHOL DIRPRWY FAER ETHOLEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG NESAF

Gwahoddwyd enwebiadau a chynigiwyd dau enw, sef y Cynghorwyr Steve Bell a Gareth Parry. Yn dilyn pleidlais, etholwyd y Cyng. Gareth Parry a bydd yn cael ei benodi'n ffurfiol yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 22 Mai 2023.

Gadawodd y Cyng Huw Wyn Jones y cyfarfod am 7.38pm

107/22 PROSIECT ARWYDDION – OPSIYNAU MAP

Roedd y cwmni wedi anfon lluniau manwl o'r opsiynau amrywiol ar gyfer prosiect arwyddion Bangor. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd pob agwedd ar hygyrchedd gweledol wedi cael sylw. Teimlwyd hefyd bod angen mewnbwn arbenigol.

PENDERFYNWYD gwahodd y dylunwyr i gyfarfod arbennig gyda'r aelodau er mwyn cael mwy o eglurder ar y mater cyn dod i benderfyniad.

108/22 CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR.

i)	Cyfarfod y Cyngor - 5 ^{Medi} 2022 Cymeradwyo fel cofnod cywir
ii)	Asedau, adnoddau a Phrosiectau 5 ^{Medi} 2022 Cymeradwyo fel cofnod cywir
iii)	Cyfarfod y Cyngor - 3ydd ^{Hydref} 2022 Cymeradwyo fel cofnod cywir
iv)	Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 3ydd ^{Hydref} 2022 Cymeradwyo fel cofnod cywir
v)	Cyfarfod y Cyngor - 14 ^{Tachwedd} 2022 Cymeradwyo fel cofnod cywir

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cofnodion (i) - (v) uchod.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr aelodau wedi cael addewid am adroddiad llawn o'r digwyddiad Cracer Nadolig (91/22) a'r costau ac nid oedd hwn wedi'i ddisbarthu.

Atebodd Cyfarwyddwr y Ddinas ei fod wedi derbyn yr adroddiad ac y byddai'n anfon copiâu at yr holl Aelodau ar ôl y cyfarfod.

109/22 CYMERADWYO GWAITH UWCHRADDIO I BIER GARTH

Roedd Cyfeillion Bangor Gareth Pier wedi gofyn am estyniad i'r teledu cylch cyfyng ym Mangor, er mwyn diogelu deiliaid y ciosgau gyda llawer ohonynt yn gweithio ar eu pennau eu hunain.

TUDALEN 31

Hefyd, dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas fod angen £11,000 i uwchraddio'r cyflenwad trydan i'r Pier.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ddau gais. Dylid gosod rhybudd am y teledu cylch cyfyng ar y Pier.

110/22 CEISIADAU CYNLLUNIO

C23/0230/11/LL – 304 Stryd Fawr – Creu 4 fflat preswyl hunangynhaliol uwchben siop.
[Gwynedd | Cyngor Uniongyrchol | Cais | 33993 \(llyw.cymru\)](#)

C23/0255/11/LL – Tap & Spile Ffordd Garth – Amnewid y system echdynnu cegin bresennol a chreu ffenestr newydd.
[Gwynedd | Cyngor Uniongyrchol | Cais | 34029 \(llyw.cymru\)](#)

C23/0219/11/DT – 152 Ffordd Penrhos – Estyniad unllawr a modurdy newydd.
[Gwynedd | Cyngor Uniongyrchol | Cais | 34037 \(llyw.cymru\)](#)

C23/0306/11/LL - Yr Iard Gychod Ffordd Garth – Gwaith adnewyddu.
[Gwynedd | Cyngor Uniongyrchol | Cais | 34049 \(llyw.cymru\)](#)

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ceisiadau cynllunio uchod. **Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

111/22 DARPARU ADBORTH AR Y CERFLUN Y TU ALLAN I STORIEL

Trafododd y Cyngor y cerflun arfaethedig i'w osod y tu allan i Storiell, fel rhan o'i gais grant Trawsnewid Trefi. Dywedwyd fod y cerflun hwn, a ddyluniwyd gan artist lleol, yn disgrifio cymunedau a straeon Gwynedd, drwy gynnwys gwahanol fathau o hetiau a phenwisgoedd. Er bod y Cyngor yn derbyn y byddai hwn yn ennyn ar drafodaeth, roedd gan yr Aelodau bryderon i fod yn canolbwyntio'n ormodol ar ddynion, yn rhy amwys ac o bosibl yn beryglus ar sail iechyd a diogelwch.

PENDERFYNWYD cyfleu'r pryderon hyn i Storiell.

112/22 CYMERADWYO TALIADAU

Anfonwyd rhestrau taliadau Chwefror a Mawrth at yr aelodau a chymeradwywyd hwy.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CYFARWYDDWR DINAS